# YR ORNEST

gan Deio Jones

Sefyll yn y Stadiwm ar bnawn dydd Sadwrn
a'r Stadiwm yn wal o sŵn.
Y dorf yn gweiddi
- a finnau'n crynu.
Cymru, Lloegr, yr Alban, Iwerddon
i gyd yn chwarae am y goron.
Canu nerth fy mhen,
am Gymru sydd yn annwyl i mi.
Nid yw'r Frenhines o ddiddordeb i ni.
Yna'n sydyn, chwiban gynta'r gêm – i ffwrdd â hi.

Dynion bach, dynion mawr
Cyrff ar hyd y llawr.
Sgrymio, neidio, cicio, taclo
Chwiban!
Edrychodd y reffari yn flin arna i
'Tacl uchel – cerdyn coch!' – sgrechiodd fel cloch.
'Deg munud yn y bin'.
Edrychais i'n syn!
'Na, dim ti – chdi!'
Diolch byth am hynny.

Daeth y bêl i'm dwylo
Roedd y Saeson yn wylo,
I ffwrdd â fi
Heibio tri.

Rhedeg at y llinell

A dyma fi!

‘Cais!’, bloeddiodd y dorf yn un llais.

Hogia Cymru, ein harwyr ni

Cymru – 60, Lloegr 3.

Seren y gêm – fi – Leigh Halfpenny!